



UNIVERSITY OF  
BIRMINGHAM



## Astudiaeth ELSA: Goruchwyliaeth Gynnar ar gyfer Diabetes Awto-imiwn

### Taflen Wybodaeth i Rieni a Gofalwyr

#### Gwahoddiad:

Fel rhiant neu ofalwr i blentyn rhwng 3 a 13 oed, mae gwahoddiad i'ch plentyn gymryd rhan mewn rhaglen sgrinio ar gyfer diabetes math 1.

Bydd y daflen hon yn rhoi mwy o wybodaeth i chi am astudiaeth ELSA. Gallwch ymweld â gwefan yr astudiaeth i gael fersiwn ar-lein o'r daflen wybodaeth hon: [www.elsadiabetes.nhs.uk](http://www.elsadiabetes.nhs.uk).



#### Rhan 1 - Crynodeb ELSA:

Mae Astudiaeth ELSA yn profi plant gan ddefnyddio prawf gwaed pigiad bys i ddarganfod marcwyr yn y gwaed (awto-wrthgyrff) sy'n dweud wrthon ni fod eich plentyn mewn perygl o gael diabetes math 1 yn y dyfodol.

Bydd 3 o bob 1000 o blant yn cael prawf positif am y gwrthgyrff hyn, ond does ganddon ni ddim ffordd o wybod pa blant fyddan nhw.


ELSA yw'r rhaglen fwyaf sy'n sgrinio am wrthgyrff diabetes math 1 ym Mhrydain. Mae pob teulu sy'n cymryd rhan yn ein hastudiaeth yn ein helpu ni i ddeall mwy am ddiabetes math 1 ar gyfer plant sydd mewn risg.



#### Rhan 2 – Mwy am Astudiaeth ELSA:

##### Beth yw diabetes math 1?

- Cyflwr difrifol yw diabetes math 1 lle mae lefel glwcos (siwgr) y gwaed yn rhy uchel gan na all y corff greu hormon o'r enw inswlin.
- Mae hyn yn digwydd pan fydd system imiwnedd y corff yn ymosod ar y celloedd yn y pancreas sy'n creu'r inswlin, gan olygu nad oes modd creu inswlin.
- Mae gwrthgyrff yn cyfrannu at y broses hon.
- Mae angen inswlin ar bawb i fyw. Mae'n gwneud swydd hanfodol. Mae'n caniatáu i'r glwcos yn ein gwaed fynd i'n celloedd a phweru ein cyrff.



Ar draws y byd, mae astudiaethau ymchwil yn sgrinio plant ar gyfer diabetes math 1, fel bod modd i ni ddarganfod y plant sydd mewn perygl o'i gael cyn iddyn nhw fynd yn sâl.

### Beth mae Astudiaeth ELSA'n ei olygu i'ch plentyn?

Mae astudiaeth ELSA yn profi plant am wrthgyrff, er mwyn darganfod plant sydd mewn perygl uchel o ddatblygu diabetes math 1 yn y dyfodol. Mae astudiaeth ELSA yn profi am bedwar gwahanol fath o wrthgorff o'r enw IAA, IA2, ZnT8 a GAD. Wrth i'r nifer o wrthgyrff sydd gan blentyn gynyddu, mae hyn yn cynyddu eu risg o ddatblygu diabetes math 1 yn y dyfodol.

Mae astudiaeth ELSA eisiau canfod plant â gwrthgyrff er mwyn i ni eu helpu'n gynt drwy:

- Atal plant risg uchel rhag mynd yn rhy sâl, gan ddechrau triniaeth yn gynt.
- Cynnig astudiaethau ymchwil pellach sy'n monitro lefel risg plant dros amser.
- Treialu triniaethau newydd sydd â'r nod o ohirio diabetes math 1 rhag dechrau.


Astudiaeth ELSA yw'r rhaglen fwyaf sy'n sgrinio am wrthgyrff diabetes math 1 ym Mhrydain. Mae pob teulu sy'n cymryd rhan yn ein hastudiaeth yn ein helpu ni i ddeall mwy am ddiabetes math 1 ar gyfer plant sydd mewn risg.

### Beth fydd yn digwydd os bydda i'n cytuno i fy mhleintyn gymryd rhan yn y rhaglen sgrinio?

Os byddwch chi'n penderfynu ymrestru eich plentyn yn astudiaeth ELSA, yn gyntaf byddwn ni'n gwirio bod eich plentyn yn gymwys ar gyfer yr astudiaeth, ac yna bydd angen i chi lenwi ffurflen gydsynio i'ch plentyn gymryd rhan. Ar ôl hyn, bydd angen i chi lenwi ffurflenni'r astudiaeth i roi eich manylion cyswllt a manylion demograffeg eich plentyn, gan gynnwys eu hoedran, eu categori rhyw adeg eu geni, ethnigrwydd a hanes meddygol perthnasol.


### Cam 1 – Prawf gwaed pigiad bys:

- Gellir gwneud y prawf gwaed pigiad bys gartref, yn yr ysgol, neu yn y feddygfa. Dyma'r sgriniad cyntaf i weld a oes gan eich plentyn wrthgyrff diabetes math 1.
- **Prawf gwrthgyrff negatiff:** Os yw eich plentyn yn profi'n negatiff, mae hyn yn golygu nad oes gan eich plentyn wrthgyrff a bod eu risg o ddatblygu diabetes math 1 yn isel ar hyn o bryd. Ni fydd angen profion pellach ar eich plentyn yn astudiaeth ELSA (bydd 99 o bob 100 o blant yn sgrinio'n negatiff).
- **Prawf gwrthgyrff positif:** Os bydd eich plentyn yn profi'n positif, mae hyn yn golygu bod gan eich plentyn wrthgyrff ar y sgriniad cyntaf hwn a bydd angen prawf gwaed gwythiennol yn yr ysbyty arnyh nhw i gadarnhau hyn. Gallwn dalu am eich costau teithio, os gallwch chi ddarparu tystiolaeth o'ch taith, fel derbynebau.



### Cam 2 – Profion gwaed gwythiennol:

- Bydd angen y prawf gwaed gwythiennol ar 1 o bob 100 o blant yn yr astudiaeth. Byddwn ni'n cymryd hyd at un llwy fwrdd o waed (hyd at 15ml) yn dibynnu ar oedran eich plentyn.
- **Prawf gwrthgyrff negatiff:** Os yw eich plentyn yn profi'n negatiff ar y prawf gwaed gwythiennol, ni fydd angen i ni wneud mwy o brofion yn rhaglen sgrinio ELSA (cam 4-6).
- **Prawf positif ar gyfer un gwrthgyrff:** Os bydd eich plentyn yn profi'n positif ar gyfer un gwrthgyrff, mae hyn yn golygu bod eich plentyn mewn rhywfaint o berygl o ddatblygu diabetes math 1 yn y dyfodol. Byddwch chi a'ch teulu yn cael eich gwahodd i sesiwn addysg yn egluro beth mae hyn yn ei olygu (cam 4-6).
- **Prawf positif ar gyfer dau wrthgyrff neu fwy:** Os bydd eich plentyn yn profi'n positif ar gyfer dau wrthgyrff neu fwy, mae hyn yn golygu ei bod bron yn sicr y bydd eich plentyn yn datblygu diabetes math 1. Felly, bydd angen mwy o brofion gwaed ar eich plentyn (cam 3-6).



### Cam 3 – Prawf goddefgarwch glwcos trwy'r geg (mwy o brofion gwaed gwythiennol)

- Os oes gan eich plentyn **ddau wrthgyrff neu fwy**, bydd angen i'ch plentyn gael mwy o brofion gwaed i weld a oes angen dechrau inswlin yn syth. Bydd faint o waed sy'n cael ei dynnu'n ddibynnol ar oedran y plentyn, ond gallai fod yn 2-4 llwy fwrdd neu 30-60ml.
- Bydd angen i'ch plentyn ymprydio dros nos, ac yna byddan nhw'n cael eu canwleiddio fel bod modd tynnu gwaed ar chwe phwynt dros dair awr. Bydd eich plentyn hefyd yn cael diod glwcos ar gyfer y prawf hwn.
- Bydd y prawf hwn yn digwydd yn yr ysbyty, a gallwn dalu am eich costau teithio a chynnig llety i chi a'ch plentyn. Bydd tîm yr astudiaeth yn cyfeirio eich plentyn i'r gwasanaeth diabetes plant os yw'n glinigol angenrheidiol a byddwn ni'n eich ffonio i drafod hyn.

### Cam 4 – Sgrinio canlyniadau a holiadur yr astudiaeth

- Bydd tîm yr astudiaeth yn rhoi gwybod i chi beth yw canlyniadau prawf sgrinio eich plentyn. Os yw eich plentyn yn negatiff, byddwch yn cael neges destun ac e-bost/llythyr, yn ddibynnol ar eich dewisiadau cyswllt. Byddwch hefyd yn cael gwybodaeth ynghylch beth mae'r prawf negatiff hwn yn ei olygu.
- Os bydd eich plentyn yn profi'n positif, bydd tîm yr astudiaeth yn eich ffonio ac yn anfon e-bost/llythyr i egluro beth yw'r camau nesaf.
- Gyda'ch cydsyniad chi, byddwn ni'n rhoi gwybod i feddyg teulu eich plentyn am ganlyniad y prawf gwrthgyrff drwy lythyr, fel bod modd cynnwys statws risg eich plentyn yn systemau clinigol y GIG i helpu yn y dyfodol.
- Ar ôl i chi gael canlyniad eich plentyn, byddwn ni'n gofyn i chi lenwi holiadur astudiaeth i ddeall unrhyw bryderon sydd gennych.




### Cam 5 – Addysg

Bydd pob teulu sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth yn cael mynediad at ddeunydd addysgol o wefan ein hastudiaeth.

Os bydd eich plentyn yn cael prawf positif am wrthgyrff, byddwch chi a'ch teulu hefyd yn cael eich gwahodd i sesiwn addysg i'ch helpu i ddeall beth mae hyn yn ei olygu o ran dyfodol eich plentyn.

Bydd y sesiwnau addysg yn cael eu cynnal ar-lein a/neu wyneb yn wyneb. Bydd y sesiwn addysg yn dweud wrthoch chi am:

- Arwyddion a symptomau diabetes math 1 i gadw llygad amdanynt.
- Rhaglenni monitro (INNODIA: <https://www.innodia.eu/>) y gallai eich plentyn ymuno â nhw i gael gwiriadau rheolaidd e.e. prawf gwaed bob 6 mis.
- Astudiaethau ymchwil efallai y bydd eich plentyn yn gymwys amdanynt, sy'n profi triniaethau newydd a allai oedi dechrau diabetes math 1 (gyda'ch cydsyniad).
- Bydd teuluoedd sy'n dod i'r sesiwn addysg yn cael cais i gwblhau holiadur terfynol yr astudiaeth ar ôl y sesiwn.



### Cam 6 – cyfweiliadau

- Wedi hynny, gall rhieni gymryd rhan mewn astudiaeth gyfweiliadau, i ddweud wrthon ni sut oedd y rhaglen sgrinio i chi ac awgrymu meysydd i'w gwella.
- Rydyn ni eisiau clywed gan rieni plant sydd wedi cael canlyniadau sgrinio positif neu negatiff.
- Bydd recordiad sain yn cael ei wneud o'r cyfweiliad(au). Gall rhieni ddewis a ydyn nhw eisiau cymryd rhan yn y rhain ai peidio. Gallwch gydsynio ar gyfer yr astudiaeth gyfweiliadau ar ddiwedd y rhaglen sgrinio.
- Gellir cynnal y cyfweiliad ar adeg gyfleus i chi ar Zoom, dros y ffôn neu wyneb yn wyneb. Gallwch hefyd stopio'r cyfweiliad neu gymryd egwyl ar unrhyw adeg.
- Bydd tîm yr astudiaeth yn rhoi gwybod i chi os byddwch wedi'ch dewis i ddod am gyfweiliad. Rydyn ni'n samplu er mwyn sicrhau bod ganddon ni gynrychiolaeth amrywiol.







### Pwy all gymryd rhan yn rhaglen sgrinio astudiaeth ELSA?

- Gall plant rhwng 3 a 13 oed gymryd rhan yn rhaglen sgrinio Astudiaeth ELSA.
- Nid yw plant sydd â diagnosis o ddiabetes math 1 yn gymwys i gymryd rhan yn Astudiaeth ELSA.

### Beth yw manteision cymryd rhan yn rhaglen sgrinio astudiaeth ELSA?

Yn yr astudiaeth hon, gallwch ddarganfod beth yw risg eich plentyn o ddatblygu diabetes math 1 yn y dyfodol. Ar gyfer plant sy'n risg uchel, mae gwybod hyn yn gynnar yn rhoi cyfle i ni gadw llygad agos arny'n nhw a dechrau triniaeth yn gynt, cyn iddyn nhw fynd yn sâl. Mae cyfle hefyd i gymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil, gan brofi triniaethau addawol i ohirio diabetes math 1 rhag dechrau. Nid oes modd gwneud hyn heb sgrinio.

**Manteision sgrinio am ddiabetes math 1:**

 <p>Gwiriadau mwy rheolaidd</p>	 <p>Dechrau triniaeth yn gynt</p>	 <p>Atal eich plentyn rhag mynd yn sâl</p>	 <p>Mynediad at driniaethau newydd addawol</p>
--	--	--	---

Y cynharaf rydyn ni'n sgrinio, y mwyaf o gyfle sydd i ymyrryd.

### Beth yw risgiau cymryd rhan yn rhaglen sgrinio astudiaeth ELSA a sut byddwn ni'n lleihau'r risgiau hyn?

Risgiau cymryd rhan yn astudiaeth ELSA	Sut byddwn ni'n lleihau'r risgiau hyn?
Achosi anghysur i fy mhleintyn yn y profion gwaed.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r prawf gwaed pigiad bys yn gyflym ac yn hawdd.</li> <li>Dim ond os bydd angen i ni wneud y byddwn ni'n gwneud y profion gwaed gwythiennol.</li> <li>Byddwn ni'n defnyddio eli dideimlo a bydd gweithwyr profiadol yn lleihau'r anghysur i chi a'ch plentyn.</li> </ul>
Darganfod bod fy mhleintyn yn risg uchel.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae tîm Astudiaeth ELSA ar gael i gefnogi teuluoedd gyda'r wybodaeth hon a byddant yn egluro beth yw'r camau nesaf.</li> </ul>
Nid oes un prawf sgrinio yn 100% cywir.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Mae'r prawf sgrinio a ddefnyddir yn Astudiaeth ELSA wedi'i ddilysu ac wedi bod yn destun profi trylwyr.</li> <li>Mae monitro'n bwysig er mwyn edrych ar y gwrthgyrff hyn dros amser.</li> </ul>
Pam sgrinio pan nad oes iachâd?	<ul style="list-style-type: none"> <li>Rydyn ni'n gweithio tuag at driniaethau ataliol, ac yn gobeithio darganfod plant sy'n risg uchel er mwyn eu helpu nhw a phlant eraill yn y dyfodol.</li> </ul>
Gallai'r holiadur a'r cyfweliad gynnwys pynciau sensitif.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Bydd tîm astudiaeth ELSA yn eich cefnogi gyda'r rhain a gallwch ddewis stopio'r holiadur neu'r cyfweliad neu gymryd egwyl ar unrhyw adeg. Gall tîm astudiaeth ELSA eich cyfeirio at eich meddyg teulu os ydyn ni'n teimlo y byddai hyn yn ddefnyddiol i gefnogi eich teulu ymhellach.</li> </ul>

### **Beth os nad ydw i am gymryd rhan yn rhaglen sgrinio astudiaeth ELSA?**

Mae cymryd rhan yn y rhaglen sgrinio'n gwbl wirfoddol ac os byddwch chi'n dewis peidio â chymryd rhan yn y rhaglen sgrinio, ni fydd hyn yn effeithio ar eich gofal rheolaidd chi na'ch plentyn mewn unrhyw ffordd. Serch hynny, gall rhieni/gwarcheidwaid dal gymryd rhan yng nghyfweliad astudiaeth ELSA, i rannu eich barn a'ch pryderon am sgrinio am ddiabetes math 1. Ni fydd eich safbwyntiau'n cael eu barnu na'u herio; rydyn ni wir eisiau clywed ystod eang o safbwyntiau. Gallwch roi gwybod i ni ar y ffurflen gymhwysedd os hoffech gymryd rhan yng nghyfweliad yr astudiaeth yn unig, a byddwn ni wedyn yn gofyn am eich cydsyniad am hyn ac yn trefnu'r cyfweliad ar adeg sy'n gyfleus i chi.

### **Pwy all gymryd rhan yng nghyfweliadau astudiaeth ELSA?**

- Gall rhieni sydd â phlentyn rhwng 3 a 13 oed gymryd rhan yn yr astudiaeth gyfweliad.
- Gall hyd at ddau riant/gwarcheidwad gymryd rhan yn y cyfweliad.

### **Sut galla i gofrestru i gymryd rhan/sut mae ymrestru yn astudiaeth ELSA?**

Mae cymryd rhan yn broses tri cham a gallwch gwblhau'r tair ffurflen hon ar-lein, wyneb yn wyneb neu drwy'r post:

- Cam 1 – Ffurflen gymhwysedd – dywedwch wrthym yma os hoffech i'ch plentyn gymryd rhan yn y rhaglen sgrinio,
- Cam 2 – Ffurflen(ni) Cydsynio. Gallwch benderfynu a hoffech i'ch plentyn gwblhau ffurflen gydsynio hefyd.
- Cam 3 – Ffurflen manylion personol a chlinigol.

Mae'r broses gydsynio ar-lein drwy ffurflenni REDCap. Petai'n well gennych wneud hyn wyneb yn wyneb neu drwy'r post, cysylltwch â thîm yr astudiaeth drwy e-bost neu'r ffôn. Gallwch ddewis profi gartref neu yn y gymuned (byddwn ni'n rhoi cyfarwyddiadau a chefnogaeth ar gyfer un o'r ddau opsiwn).

### **Beth os bydd problem?**

- Os oes gennych unrhyw bryderon am yr astudiaeth, cysylltwch â thîm yr astudiaeth: [elsa@contacts.bham.ac.uk](mailto:elsa@contacts.bham.ac.uk).
- Os ydych chi'n anfodlon gyda'u hymateb neu os ydych chi'n dymuno gwneud cwyn, gallwch gysylltu â chynrychiolydd annibynnol y noddwr, Dr Birgit Whitman, drwy [researchgovernance@contacts.bham.ac.uk](mailto:researchgovernance@contacts.bham.ac.uk).
- Os oes gennych unrhyw bryderon am eich data neu os byddwch chi'n dymuno gwneud cwyn am y ffordd cafodd eich data ei drin, gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Prifysgol Birmingham drwy [Dataprotection@contacts.bham.ac.uk](mailto:Dataprotection@contacts.bham.ac.uk)

### **Rheoli data:**

Bydd eich data chi a'ch plentyn yn cael ei storio'n gyfrinachol yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Byddwn yn cadw'r holl wybodaeth yn gwbl ddiogel. Bydd eich manylion personol yn cael eu cadw'n ddiogel yng nghronfa ddata REDCap. Bydd ffurflenni post yn cael eu ffeilio mewn swyddfa ddiogel wedi'i chloï. Bydd samplau profion sgrinio eich plentyn yn cael eu trosglwyddo o Gyfleuster Ymchwil Glinigol Ysbyty Plant Birmingham i Wasanaeth Imiwnoleg Clinigol Prifysgol Birmingham, lle bydd y samplau hyn yn cael eu storio am gyfnod yr astudiaeth ac am ddeng mlynedd wedi hynny. Bydd canlyniad sgrinio eich plentyn yn cael ei storio ar systemau clinigol y GIG (gyda'ch cydsyniad).

**Gallwch ddewis cydsynio i rannau canlynol astudiaeth ELSA (mae'r rhain yn ddewisol ac nid ydynt yn ofynnol er mwyn i'ch plentyn gymryd rhan yn astudiaeth ELSA):**

- Defnyddio data dienw eich plentyn ar gyfer astudiaethau ymchwil pellach, ledled y byd, ar gyfer ymchwil gydweithredol a gymeradwywyd yn foesebol
- Cysylltu â chi am gyfweiliadau ansoddol ar ddiwedd yr astudiaeth.
- Cysylltu â chi am astudiaethau ymchwil yn y dyfodol y gallai eich plentyn gymryd rhan ynddynt, sy'n berthnasol i'w canlyniadau prawf sgrinio.
- Darparu rhif GIG eich plentyn ar gyfer olrhain cofnodion meddygol eich plentyn yn hirdymor (10 mlynedd) – ni fydd y cam dilynol hwn yn gofyn am unrhyw gyswllt nac apwyntiad i chi na'ch plentyn.

**Pa wybodaeth bersonol sydd ei hangen arnon ni ar gyfer yr astudiaeth?**

Bydd angen i ni gasglu'r wybodaeth ganlynol gennych chi a'ch plentyn ar gyfer yr astudiaeth hon:

- Enw rhiant/gwarcheidwad, statws gwarcheidwad cyfreithiol e.e. mam eni, llysfam, eich manylion cyswllt (e-bost, rhif ffôn a chyfeiriad) a'ch oedran, ethnigrwydd, rhywedd a galwedigaeth.
- Enw, oedran, ethnigrwydd a rhywedd eich plentyn.
- Hanes teuluol o ddiabetes math 1 ac a oes gan eich plentyn glefyd seliag neu glefyd thyroid.
- Manylion cyswllt eich Meddyg Teulu – mae hyn er mwyn rhoi gwybod i Feddyg Teulu eich plentyn am ganlyniad eu prawf sgrinio.
- Rhif GIG eich plentyn – mae hyn yn ddewisol a bydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer olrhain hirdymor gyda'ch cydsyniad chi. Mae hyn yn ein helpu i ddeall effaith sgrinio ar gyfer diabetes math 1.

Byddwn ni'n defnyddio'r wybodaeth hon i gynnal yr ymchwil neu i wirio eich data i wneud yn siŵr fod yr ymchwil yn cael ei chynnal yn gywir. Bydd cod yn cael ei ddynodi i'ch plentyn wrth ddechrau yn Astudiaeth ELSA. Bydd tîm yr astudiaeth yn prosesu ac yn dadansoddi data o'r astudiaeth gan ddefnyddio'r codau hyn yn hytrach na manylion personol eich plentyn. Ni fydd modd i aelodau tîm yr astudiaeth nad oes angen iddynt wybod pwy ydych chi weld eich enw na'ch manylion cyswllt.

Mae gennym gytundeb rhannu data a chyfrinachedd gyda Firetext a DOCmail. Byddwn ni'n defnyddio Firetext i anfon negeseuon testun atoch chi i roi gwybod am brosesau'r astudiaeth ac a oes gan eich plentyn ganlyniad gwrthgyrff negatiff; mae hyn yn golygu y byddwn ni'n rhannu eich rhif ffôn symudol gyda Firetext gyda'ch cydsyniad chi. Byddwn ni'n defnyddio DOCmail i anfon llythyr gyda chanlyniadau eich plentyn at eu meddyg teulu; mae hyn yn golygu y byddwn ni'n rhannu eich cyfeiriad post gyda DOCmail gyda'ch cydsyniad chi. Mae systemau Firetext a DOCmail yn cydymffurfio â GDPR ac yn destun prosesau diogelwch cadarn. Cedwir data mewn llwyfan integredig ac ni fydd yn cael ei rannu â thrydydd partion ym Mhrydain na'r tu hwnt.

Gallwch ddewis cydsynio i dîm astudiaeth ELSA allu rhannu eich manylion cyswllt gyda INNODIA fel bod modd iddynt rannu manylion rhaglenni monitro y mae eich plentyn yn gymwys ar eu cyfer. Gallwch hefyd ddewis cydsynio i dîm astudiaeth ELSA olrhain data eich plentyn drwy eu cofnodion meddygol a rhaglen fonitro INNODIA. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall manteision hirdymor sgrinio.

Bydd trawsgrifiadau sain o gyfweiliadau'r astudiaeth yn cael eu trawsgrifio gan ddarparwr allanol (gwasanaethau trawsgrifio AD), ac mae gan Brifysgol Birmingham gytundeb contractiol a phrosesu data ar waith gyda'r darparwr hwn. Bydd trawsgrifiadau'n cael eu codio ar ôl gwirio'r trawsgrifiad o ran cywirdeb.

Ar ôl gorffen yr astudiaeth, byddwn yn cadw rhywfaint o'r data er mwyn i ni allu gwirio'r canlyniadau. Byddwn yn ysgrifennu ein hadroddiadau mewn ffordd fel nad oes modd i neb wybod eich bod wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth. Bydd y data dienw'n cael ei gyhoeddi mewn

cyfarfodydd/cyfnodolion gwyddonol rhyngwladol, ond bydd y cyfan yn ddiennw. Os byddwch yn cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon, bydd gennych opsiwn i gymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol gan ddefnyddio data eich plentyn a samplau a gadwyd o'r astudiaeth hon. Byddwn ni'n gofyn ar eich ffurflen gydsynio a ydych chi'n cytuno i hyn.

### **Pa ddewisiadau sydd gennych o ran y ffordd y byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth?**

Gallwch stopio bod yn rhan o'r astudiaeth ar unrhyw adeg, heb roi rheswm, ond byddwn ni'n cadw'r wybodaeth sydd eisoes gennym amdanoch chi. Mae hyn gan fod angen i ni reoli eich data mewn ffyrdd penodol er mwyn i'r ymchwil fod yn ddibynadwy. Mae hyn yn golygu na fyddwn ni'n gadael i chi weld na newid y data sydd ganddon ni amdanoch chi. Os byddwch yn cytuno i gymryd rhan yn yr astudiaeth hon, bydd gennych opsiwn i gymryd rhan mewn ymchwil yn y dyfodol gan ddefnyddio eich data a samplau a gadwyd o'r astudiaeth hon.

### **Ble mae dod o hyd i ragor o wybodaeth am y ffordd caiff eich gwybodaeth ei defnyddio?**

- Ar ein gwefan: [www.elsadiabetes.nhs.uk](http://www.elsadiabetes.nhs.uk).
- Drwy anfon e-bost at [elsa@contacts.bham.ac.uk](mailto:elsa@contacts.bham.ac.uk) neu ein ffonio ni drwy: 0121 414 7814.
- Drwy anfon e-bost at Swyddog Diogelu Data Prifysgol Birmingham drwy [dataprotection@contacts.bham.ac.uk](mailto:dataprotection@contacts.bham.ac.uk).

### **Cwestiynau cyffredin:**

- 1. Pwy sy'n arwain ac yn ariannu'r astudiaeth?** Mae astudiaeth ELSA yn cael ei harwain gan Brifysgol Birmingham, a'i hariannu gan Diabetes UK a'r Sefydliad Ymchwil Diabetes Ieuentid. Prif Ymchwilwyr yr Astudiaeth yw'r Athro Parth Narendran a'r Athro Timothy Barrett.
- 2. Sut mae cleifion a'r cyhoedd wedi bod yn rhan o'r astudiaeth hon?** Rydyn ni wedi gweithio gyda rhieni a phobl ifanc i lywio dyluniad yr astudiaeth.
- 3. Pwy sydd wedi adolygu'r astudiaeth?** Mae'r astudiaeth hon wedi'i noddi a'i hyswiro gan Brifysgol Birmingham. Mae'r astudiaeth wedi'i hadolygu ac wedi cael barn ffafriol gan bwyllgor moeseg ymchwil annibynnol y GIG, Wales REC 4.
- 4. Oes costau ariannol i fi am gymryd rhan, ac a oes gwobrau neu daliadau am gymryd rhan yn yr astudiaeth hon?** Byddwn ni'n ad-dalu unrhyw gostau teithio rhesymol y byddwch chi'n eu talu ar gyfer yr astudiaeth hon, ar ôl i ni gael tystiolaeth o'ch taith. Os yw'n well gennych dderbyn a chwblhau gwaith papur copi caled, byddwn ni'n anfon y ffurflenni ac amlenni rhagdaledig i chi allu eu hanfon yn ôl aton ni. Does dim gwobrau am gymryd rhan yn yr astudiaeth hon, ond rydyn ni'n ddiolchgar iawn i'r teuluoedd sy'n cymryd rhan yn yr astudiaeth hon ac yn rhoi o'u hamser i gefnogi ein hymchwil.

### **Beth sy'n digwydd nesaf os hoffech gymryd rhan yn astudiaeth ELSA?**

1. Cwblhewch y broses gydsynio tri cham ar-lein neu cysylltwch â ni ar gyfer opsiynau post neu wyneb yn wyneb, drwy e-bost: [elsa@contacts.bham.ac.uk](mailto:elsa@contacts.bham.ac.uk) neu drwy ffonio: 0121 414 7814.
2. Ewch i wefan yr astudiaeth: [www.elsadiabetes.nhs.uk](http://www.elsadiabetes.nhs.uk) i gael rhagor o wybodaeth.

### **Rhagor o wybodaeth**

Adolygwyd yr astudiaeth hon gan bwyllgor moeseg ymchwil Wales REC 4. Prifysgol Birmingham yw noddwr yr astudiaeth.

**Diolch i chi am ddangos diddordeb yn astudiaeth ELSA.**